# To Llechi i bob Tŷ

## *Canllaw i Raglenwyr*

### *Datblygwyd gyda chefnogaeth Yvonne Connikie*

Mae'r detholiad yma o ffilmiau archif ar y chwareli llechi yn darlunio cymuned, gwaith medrus a chyfeillgarwch, harddwch y tirwedd llwydlas a llawenydd cymdeithasol ac ysbrydol y bobl leol. Adlewyrchir y diwylliant mwyngloddio yn rheolaidd yn llenyddiaeth,barddoniaeth, cerddoriaeth a ffilmiau Cymreig. Ond ategir y diwydiant llechi gan hanes o gaethwasiaeth Affircanaidd a Gwladychiaeth sydd angen ei ddeall.

Mae'r rhain yn byncïau sensitif ac felly mae'r deunyddiau cyfeirio canlynol wedi eu dylunio i'ch cefnogi chi (arddangoswyr) wrth i chi lywio'r trafodaethau yma gyda'ch cynulleidfaoedd i arwain sgyrsiau cynhyrchiol, gwybodus.

Mae'r deunyddiau yn cynnwys:

- Rhestr o dermau i gefnodi trafodaeth ar ôl dangosiadau,
- Syniadau ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau wedi eu curadu,
- Siaradwyr posibl ar gyfer trafodaethau panel,
- Cyrff partner.

Gall arddangoswyr ofyn am gymorth ariannol drwy Botyn Cynigion Canolfan Ffilm Cymru i gynllunio digwyddiadau perthynol.



Y Chwarelwr

# Rhestr Termau

Mae cael yr iaith gywir yn bwysig wrth drafod themâu llechi a chaethwasiaeth. Mae hyn yn caniatau gofod i gynnal trafodaeth ar wladychiaeth yn y Caribi, diwydianeiddio yng Nghymru a'i effaith ledled y byd.

## Matrics Pŵer Gwladychol

Term a ddyfeisiwyd gan Aníbal Quijano i ddisgrifio gwaddol gwladychiaeth mewn strwythurau grym a rheolaeth, yn ogystal ag mewn systemau gwybodaeth. Mae'r matrics pŵer gwladychol yn pwysleisio y gellir olrhain nifer o gysylltiadau grym sefydliadol, cymdeithasol a diwylliannol heddiw i strwythurau a diwylliannau a weithredwyd yn ystod y cyfnod gwladychol.

Er enghraifft, priododd Richard Pennant gydag Anne Susannah Warburton, etifeddes i un rhan o Ystad y Penrhyn yng ngogledd orllewin Cymru. Defnyddiodd Richard Pennant yr elw o blanhigfeydd siwgr ei ddiweddar dad yn India'r Gorllewin i ddatblygu ystadau'r Penrhyn yn Sir Gaernarfon, enghraifft o sut y gweithredwyd matrics pŵer gwladychol yn y Caribi a Chymru.

## Gwladychiaeth

Cysyniad i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac epistemig (gwybodaeth) gwladychiaeth. Mae gwladychiaeth yn cyfeirio at y modd y mae gwaddol gwladychol yn effeithio ar systemau diwylliannol a chymdeithasol yn ogystal ag ar wybodaeth a'i gynhyrchu.

## Dadwladychiaeth

Mudiad sydd yn nodi'r ffyrdd y mae'r dulliau gorllewin o feddwl a systemau gwybodaeth wedi eu cyffredinoli. Mae dadwladychiaeth yn ceisio symud i ffwrdd o'r canolbleidiaeth Ewropeaidd yma drwy ganolbwyntio ar adfer dulliau 'amgen' yma o wybod.

## Anghyfiawnder Epistemig

Gwahaniaethu yn erbyn ffurfiau neilltuol o wybod neu wybodaeth, yn cynnwys yn seiliedig ar hil, rhywedd, rhywioldeb, diwylliant, cefndir cymdeithasol a ffactorau tebyg eraill. Mae anghyfiawnder epistemig yn esgor ar eithrio pobl neilltuol o'r broses o gynhyrchu gwybodaeth. Mae'n annilysu eu gallu i gael eu gweld fel rhai sydd yn meddu ar wybodaeth, neu systemau gwybodaeth eu hunain.

## De Byd-eang

Ymadrodd sydd fel arfer yn cyfeirio at Asia, Affrica, a De America. Mae'n eu nodi fel bod yn fras yn llai datblygedig yn economaidd ac yn ymylol yn wleidyddol neu yn ddiwylliannol. Mae'r term wedi dod yn gyffredin yn ddiweddar fel term i ddisodli termau fel 'trydydd byd', 'perifferi' neu 'byd datblygol'. Mae'n derm cymharol sydd yn cyfosod y De I'r Gogledd ac mae ei wreiddiau mewn syniadau bod moderniaeth, cyfoeth a grym wedi eu lleoli yn y Gorllewin.

## Gogledd Byd-eang

Ymdrodd sydd fel arfer yn cyfeirio at Ewrop, Gogledd America ac Awstralia. Yn fras mae'n eu nodi fel rhanbarthau byd-eang sydd yn ddominyddol yn economaidd, gwleidyddol a diwyllainnol. Mae'r ymadrodd wedi dod yn gyffredin yn ddiweddar i ddisodli termau fel 'Byd Cyntaf', 'craidd' neu 'byd datblygol'.

## Monoddiwylliant

Y broses o gefnogi, gorfodi neu ganiatau mynegiant un grŵp diwylliannol, ethnig, cymdeithasol neu grefyddol gan eithrio eraill. Mae monoddiwylliant yn annog cymhathiad, lle mae disgwyl i aelodau y tu allan i'r grŵp cryfaf yma fabwysiadu ei ymddygiad a'i arferion.

## Iawndal / Cyfiawnder atgyweiriol

Y broses o wneud iawn am anghyfiawnderau a thorri hawliau dynol. Mae cyfiawnwder atgyweiriol yn broses allai gynnwys iawndal symbolaidd (cydnabyddiaeth neu ymddiheuroad a chofio), mae'n gwarantu na chaiff y drosedd ei hailadrodd, iawndal, adfer (iawndal y tu hwnt i atgyweiriadau economaidd neu ariannol fel darparu gwasanaethau gofal a llesiant) a dychweliad (cymryd mesurau i ddod â'r partîon sydd wedi cael cam i'r sefyllfa y bydden nhw ynddo pe na bai'r anghyfiawnder wedi digwydd). Mae hyn yn ddefnyddiol iawn i drafod gwaddol y chwarelwyr a chaethweision Affrica.

## Gwrthsefyll / Gwrthryfel

Gellid trafod Streiciau'r Penrhyn fel ffurf o wrthsefyll/gwrthryfel, fel gwrthryfeloedd y caethweision yn y Caribi a Therfysg Rebecca yng Nghymru. Roedd y gweithrediadau yma yn ymateb wed'i drefnu i'r amodau gwaith erchyll yn y de a'r gogledd byd-eang.

---

*Noder os gwelwch yn dda – roedd profiadau'r chwarelwyr a chaethweision Affrica yn ddirdynnol felly mae'n iawn teimlo rhywfaint o emosiwn wrth drafod y pynciau yma. Efallai y bydd gan rai aelodau ';r gynulleidfa/panelwyr gysylltiadau gyda'r hanes a'r gwaddol yma ac yn gwerthfawrogi gofod diogel i rannu eu straeon.*

## Cyrff Partner/ Panelwyr Posibl:

- Cymdeithas Cymru,
- NWAMI (Rhwydweithioi dros Ymwybyddiaeth Byd o Amlddiwylliant),
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru,
- Black Lives Matter Caerfdydd/Casnewydd,
- Cymdeithas Jamaica Gogledd Cymru,
- Cymdeithas Jamaica De Cymru,
- Artistiaid a Sylfaenwyr 'Merched Chwarel' – prosiect am fenywod Cymru a llechi
- Unloved Heritage amrywiol brosiectau),
- Llechi Cymru (Slate Cymru), yn cynnwys eu rhestr o arbenigwyr lleol,
- Gaynor Legal - Archifydd,
- Colin Thomas – Cyfarwyddwr *Cut me Loose*,
- Abu Bakr Madden Al Shabazz – Hanesydd ac Addysgwr,
- Charlotte Williams – Awdur 'Sugar and Slate',
- Emlyn Roberts – Cyn Chwarelwr ac Arbenigwr Llechi Lleol,
- Yvonne Connikie – Rhaglennydd Ffilmiau,
- Merfyn Jones – Awdur 'The North Wales Quarrymen, 1874-1922'
- Pred Hughes – Hanesydd ac Awdur Llechi Lleol.

## *Cynllunio digwyddiadau ar themâu llechi,caethwasiaeth a gwladychiaeth:*

Cyn cynllunio digwyddiad, efallai yr hoffech feddwl am

1. Beth rydych chi eisiau i'ch cynulleidfa ei ddysgu o'r digwyddiad? Er enghraifft, ydych chi eisiau iddyn nhw wybod rhagor am wahaniaethau dosbarth rhwng y gweithwyr a'r rheolwyr? Yr effaith ar yr amgylchedd? Sut mae chwareli yn gysylltiedig gyda chaethwasiaeth?
2. Sut ydych chi eisiau iddyn nhw ddysgu? Er enghraifft, trwy weithdy, sgwrs neu drafodaeth ar ôl dangosiad?

*Ystyried gwrth adrodd stori:*
Defnyddir gwrth adrodd stori i chwyddo straeon, profiadau, naratifau a gwirioneddau cymunedau difreintiedig. Ym mhoibman a edrychwn mae'r byd yn llawn o baratifau diwylliannau cryfaf.

Fe wnaethom recordio trafodaeth ar gyfer The Whole Story rhwng Charlotte Williams, Emlyn Roberts ac Abu-Bakr. Dyma enghraifft dda o wrth adrodd stori. O ganlyniad i'r ffilm yma rydym wedi ein cyfoethogi gyda persbectif newydd o hanes Cymru o fewn cyd-destun ehangaqch hanes y byd. Gall arddangoswyr ddefnyddio'r drafodaeth yma i ddtablygu eu dealltwriaethy o chwareli Cymru a'r cysylltiadau gyda chaethwasiaeth a'i rannu gyda'u cynulleidfaoedd hefyd. Mae'r sgwrs ar gael yma.

# Syniadau am Ddigwyddiadau:

## Syniad un: Pwy sydd ar goll?

Dychmygwch eich bod yn cynllunio gweithdy lle rydych chi eisiau i'ch cynulleidfa ddysgu rhagor am y bobl sydd ar goll o naratifau am chwareli.

Gallech ddangos y 4 ffilmiau byr archif a'r ffilm '*Cut Me Loose*'. A hefyd efallai dangos y ffilm 'A Life with Slate a/ neu trafodaeth panel The Whole Story.

Cyn i chi ddechrau'r ffilm – gofynnwch i'ch cynulkleidfa weiddi, neu ysgrifennu'r bobl a'r lleoedd cyntaf sydd yn dod i'w meddwl pan maen nhw'n meddwl am chwareli.

Ar ôl dangos y ffilmiau gofynnwch yr un cwestiwn i'ch cynulleidfa a'u cael i fyfyrio ar yr atebion. Gallech hefyd ofyn:

- Pwy sydd ar goll o'n naratif am chwareli?
- Pam ydych chi'n meddwl eu bod ar goll neu wedi cael eu gadael allan?
- Beth ydy'r cyfatebiaethau/gwahaniaethau yn y modd mae pobl yn gysylltiedig gyda chwareli llechi wedi cael eu trin?
- Oes yna gymariaethau yn y modd maen nhw wedi goresgyn caledi?

## Syniad dau – Menywod Mewn Mwyngloddio

Yn aml mae menywod Cymru wed cael eu gadael allan o hanes y chwareli llechi. I siarad rhagor a, hyn gallech ddechrau trwy ddangos 'Y Chwarelwr' ac yna'r ffilm ryngwladol 'Return of the Navajo Boy'.

I ymgysylltu ymhellach gyda'ch cynulleidfa gallech wahodd yr artistiaid sydd yn rhan o'r prosiect 'Merched Chwarel' i gynnal gweithdy creadigol ac archwilio ymhellach y portread o fenywod yn y ffilmiau yma. Gallech hefyd ofyn i'r gynulleidfa:

- Beth ydy eu cysylltiad gyda chwareli llechi?
- Ydy eu trafferthion yn debyg neu yn wahanol. Os felly, pam?

## Asedau eraill sydd ar gael:

- Canllaw tymor
- Rhestr ffilmiau
- Cyfweliad The Whole Story gyda Charlotte Williams, Emlyn Roberts, Yvonne Connikie ac Abu-Bakr Madden Al Shabazz.
- Rhagflas o'r tymor



Am ragor o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:
Radha@filmhubwales.org